


## Awyr Agored Caerdydd

# Pentyrch - Creigiau
# Taith Gerdded Gylchol

Cefn gwlad, hanes a bywyd gwyllt ar eich stepen drws











CARDIFF
CAERDYDD
Prifddinas Falch

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

OUTDOOR Cardiff
AWYR AGORED Caerdydd

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales



## Dilynwch God y Cerddwyr

- Gochelwch rhag pob perygl o dân
- Caewch bob gât
- Cadwch gŵn o dan reolaeth
- Arhoswch ar y llwybrau cyhoeddus ar dir fferm
- Defnyddiwch gatiau a chamfâu i groesi ffensys, gwrychoedd a waliau
- Ewch â'ch sbwriel gartref gyda chi
- Gwarchodwch fywyd gwyllt, planhigion ac anifeiliaid


View from walk of Parc-y-Justice
Parc-y-Justice o safle ar y daith


Creigiau Village
Pentref Creigiau

## Parc-y-Justice

Mae'r cyfeiriad cyntaf at dŷ Parc-y-Justice yn dyddio yn ôl i tua'r 1530au pan oedd llys ynadon yn cael ei gynnal yno. Yn y fan hyn roedd yr Ynad Heddwch yn cymeradwyo cyfrifon ariannol. Hefyd, roedd amrywiol warantau'n cael eu harwyddo er mwyn arestio drwgweithredwyr.

Ceir hanes erchyll yn 1791 am Catharine Griffith, cyn forwyn y Parc, a'i gŵr, Henry James, yn cael eu crogi am dorri i mewn i Barc-y-Justice a dwyn darn arian. Tua saith mlynedd cyn y digwyddiad hwn, roedd Catharine, weithiau gyda'i gŵr Henry neu gyd-droseddwr arall, yn teithio o amgylch y wlad yn dwyn symiau bach o eitemau. Yn y pendraw arweiniodd yr ymddygiad hwn at ei dienyddio. Yn 31 mlwydd oed, Catharine oedd y wraig olaf i gad ei chrogi'n gyhoeddus yng Nghymru.

## Creigiau yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Ym mis Gorffennaf 1942, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, syrthiodd bomiau ar Heol Pant-y-Gored. Cafwyd cri bod tŷ'r 'Woodlands' ar dân ac erbyn y bore nid oedd yno ond cragen yn mudlosgi. Ceisiodd cymdogion achub dodrefn o'r tŷ gan gydymdeimlo â'r perchennog, Mrs Davies. Erbyn hyn mae'r tŷ wedi ei adnewyddu ac mae i'w weld o hyd ar Heol Pant-y-Gored.

Roedd Creigiau yn hafan heddychlon yn ystod y rhyfel. Byddai teuluoedd yn dal i ddefnyddio'r trên i fynd i Ynys y Barri ac roedd y llif cyson o bobl oedd yn chwilio am dywydd braf a gerddai i Greigiau o Bentyrch yn olygfa gyfarwydd. Tarodd realiti'r rhyfel pan ddaeth y trenau ysbyty i Orsaf Creigiau. Byddai degau o ambiwlansys cuddliw yn aros mewn rhes i gludo'r milwyr Americanaidd oedd wedi eu clwyfo ac oedd angen triniaeth yn Ysbyty Filitaraidd yr UDA yn Rhydlafar. Wrth i'r milwyr Americanaidd setlo yn y gymuned, daethant ag adloniant a cherddoriaeth fyw gyda nhw gan rannu eu siâr o gwrw, siocled a sigaréts â'r bobl leol.




**Tirwedd:** Mae'r llwybr yn cynnwys rhai elltydd serth, camfeydd pren, gatiau mochyn a rhai stepiau. Mae rhannau o'r llwybr hefyd ar hyd y briffordd ac mae'n rhaid croesi dwy ffordd. Dylid cymryd gofal yn y mannau hyn. Mae arwyddion â rhifau gyda bandiau coch wedi eu gosod ar hyd y daith i gerddwyr eu dilyn.

**Amser Cerdded:** Rhwng 1 awr a $1^{1/2}$ i'w gwblhau.

**Pellter cerdded:** Y llwybr cyfan yw 2.59 milltir (4.16 KM) o hyd.

## Cyrraedd yno:

Ar droed/ Beic – mae'r llwybr yn dechrau a gorffen ychydig i'r de o'r maes chwaraeon ar gornel The Gables a Heol Pant-y-Gored.

Bws – Mae'r safleoedd bws agosaf at y llwybr ar Heol Pant-y-Gored a Bronllwyn. Rhif Taith 136. Gellir cael manylion am wasanaethau yn http://www.cymraeg.traveline-cymru.info/

Car – mae parcio cyfyngedig ar gael yn y maes chwaraeon ar gornel The Gables a Heol Pant-y-Gored.



Craig-y-Parc Woodland
Coetir Craig-y-Parc



Buzzard
Bwncath

## Treftadaeth Ddiwydiannol Pentyrch

### Haearn

Roedd y rhan fwyaf o allbwn diwydiannol dwyrain Morgannwg yn teithio ar hyd Geunant Taf (ar y ffordd, y gamlas a'r rheilffordd yn ddiweddarach) tuag at Gaerdydd a thu hwnt. Dyma felly'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal. Cafodd gwaith haearn Pentyrch ei sefydlu gan fod mwyn haearn wedi ei leoli lle mae Afon Taf yn torri ei ffordd drwy rimyn deheuol maes glo De Cymru. Canfu'r gwneuthurwyr haearn cynnar mai'r ffwrneisiau mwyaf effeithiol oedd y rheiny a adeiladwyd mewn pocedi rhew. Y rheswm am hyn oedd oherwydd bod aer oer yn fwy dwys ac yn cynnwys mwy o ocsigen a oedd yn helpu'r broses. Credwyd bod hen ffwrneisi a ddarganfuwyd yno'n dyddio i oes Elisabeth, ond yn y pendraw canfu archeolegwyr diwydiannol eu bod yn dyddio i gyfnod Sioraidd yn y 1740au. Yn 1879 caeodd Gwaith Haearn Pentyrch a methwyd â ffurfio cwmni newydd felly gwerthwyd y lleoliad yn 1888.

### Glo

Agorodd Pwll Glo New Lan ym Mhentyrch yn 1872. Roedd yn cyflenwi glo o sawl haen, gan gynnwys gwythiennau Du, Fforchiog, Asgell Galed ac Efydd, i Waith Haearn Pentyrch oedd gerllaw. Roedd y pwll glo'n cyflogi tua 300 o ddynion a bechgyn gyda thraean ohonynt yn gweithio dan ddaear. Yn gynnar ar fore Llun yn 1875, lladdwyd 13 o ddynion ac anafwyd 9 arall yn dilyn ffrwydrad mawr yn y Wythïen Efydd. Parhaodd y pwll i weithio tan y Rhyfel Byd Cyntaf ac yna trosglwyddodd y dynion i weithio yn y pyllau newydd dyfnach yn y cymoedd.

### Coetiroedd

Mae coetir Craig-y-Parc yn ardal o goetir ffawydd lled naturiol. Mae rhannau mawr o'r coetir hynafol wedi eu hailblannu gyda choed ffawydd a chonwydd; fodd bynnag ceir planhigion o hyd sy'n arwydd o goetir hynafol. Yn eu plith mae: Garlleg gwyllt (Craf y Geifr), Blodau'r Gwynt, Cnau Daear, Marddanhadlen Felen, Bresych y Cŵn a charped prydferth o Glychau'r Gog yn y gwanwyn. Mae'r coetir yn gartref hefyd i nifer o rywogaethau o adar fel Telor Penddu, Dryw Eurben, Dringwr Bach, Cnocell Werdd, Bwncath a Thylluan Frech.



Enamelled Bronze Terret
Cylch Genfa Efydd Enamlog



Gwaelod-y-Garth Inn
Tafarn Gwaleod-y-Garth

## Diddordebau Lleol:

### Eglwys y Plwyf Sant Catwg

Sefydlwyd cell fynachaidd ym Mhentyrch o amgylch ffynnon o'r enw Ffynnon Catwg gan Sant Catwg sef un o'r seintiau Cymreig enwocaf. Roedd hwn yn safle sanctaidd o gwmpas 500 OC a cheir blocyn sylfaen canoloesol yn y fynwent ac mae bedyddfan o'r 12fed ganrif yn cael ei arddangos tu ôl i ddrws wydr wrth droed y pigdwr.

### Tafarn Gwaelod-y-Garth

Yn yr oes Fictoraidd ac Edwardaidd, roedd Tafarn Gwaelod-y-Garth yn dŷ tafarn lleol a oedd yn enwog am y canu a'r adloniant. Pan gyrhaeddodd y gêm 'Tippit' y brig o ran poblogrwydd yn y 1930au, tîm y dafarn hon oedd y pencampwyr lleol, yn enwog am eu sgiliau ffugio! Mae Tippit yn gêm o dactegau a sgiliau, fel chwaraewr pocer da, mae dau dîm yn chwarae yn erbyn ei gilydd i ddyfalu pwy sy'n dal y geiniog yn ei law.

**Ar Fynydd y Garth** ceir tomen gladdu Oes Efydd a adeiladwyd tua 2,000 CC. Mae golygfeydd godidog i'w gweld ar gopa'r grib.

Cafodd **cylch genfa efydd enamlog**, sef dolen a ddefnyddiwyd i ddal ffrwyn cerbyd rhyfel, ei ddarganfod yn y Garth Leiaf gan weithiwr chwarel. Mae bellach yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd.

### Taith Gerdded Diwrnod San Steffan

Dechreuwyd 'Taith Gerdded Diwrnod San Steffan' yn 1978 fel taith hamddenol drwy'r cefn gwlad lleol. Yn wreiddiol dim ond rhai teuluoedd a ffrindiau oedd yn mynd i gerdded ond bellach mae ychydig gannoedd o bobl yn ymuno â'r digwyddiad bob blwyddyn! Mae'r daith yn cychwyn o dafarn y Creigiau Inn ac yn dilyn llwybr tebyg i'r daith gylchol hon.